# MACHEN, ARTHUR (1863 - 1947) a gyfenwyd yn ARTHUR LLEWELLIN JONES i gychwyn, awdur

**Enw:** Arthur Machen
**Dyddiad geni:** 1863
**Dyddiad marw:** 1947
**Priod:** Amelia Hogg
**Priod:** Dorothie Purefoy Hudleston
**Plentyn:** Hilary Machen
**Plentyn:** Janet Machen
**Rhiant:** Janet Robina Jones (née Machen)
**Rhiant:** John Edward Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** awdur
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Cecil John Layton Price

Ganwyd 3 Mawrth 1863. Treuliodd flynyddoedd ei ieuenctid yn rheithordy Llanddewi Fach yn ymyl Caerlleon-ar-Wysg a bu yn ysgol eglwys gadeiriol Henffordd hyd nes oedd yn 17 oed. Wedi treulio peth amser yn Llundain, bron a llewygu, daeth i feddu incwm annibynnol am gyfnod a chyhoeddi rhai o'i storïau cynnar gorau.

Yr oedd eisoes wedi ysgrifennu cyfieithiad o waith Casanova a dau waith efelychiadol - *The Anatomy of Tobacco*, 1888, a *The Chronicle of Clemendy*, 1884. Yn 1900 yr oedd yn aelod o gwmni drama crwydrol F. R. Benson. Wedi hynny bu'n ysgrifennu i newyddiaduron; cyhoeddwyd dau o'i weithiau mwyaf adnabyddus yn y newyddiadur yr ysgrifennai iddo. The Bowman, a gyhoeddwyd yn yr Evening News, 29 Medi 1914, a roes gychwyn i stori ' Angel Mons ' yn ystod Rhyfel 1914-18. Cyhoeddwyd ei waith hunan-gofiannol cyntaf, *Far Off Things* (1923), o dan deitl arall yn yr Evening News yn 1915; cynhwysai'r gwaith hwn atgofion pleserus wedi eu hysgrifennu mewn ysbryd aeddfed a phrofiadol.

Erbyn heddiw daeth yr awdur yn enwog am ei storïau am y byd arall sydd yn ymylu ar fywyd realiti; ofn a dychryn ydyw'r cyweirnod iddynt; yn *Hieroglyphics*, *The Hill of Dreams*, a *The Children of the Pool* y ceir yr esiamplau mwyaf adnabyddus (gweler rhestr yn Who's Who). Er ei dueddiadau Catholig ni thorrodd ei gysylltiad â'r Eglwys Anglicanaidd.

Priododd ddwywaith a bu iddo fab a merch o'r ail wraig. Ymneilltuodd i Amersham yn 1929 a daeth yn enwog fel ymgomiwr mewn cwmni. Cafodd bensiwn sifil y Llywodraeth yn 1932. Bu farw 15 Rhagfyr 1947.

## Awdur

Cecil John Layton Price, (1915 - 1991)

## Ffynonellau

*The Times*, 16 Rhagfyr 1947

gwybodaeth gan Leslie Miller

D. P. M. Michael, *Arthur Machen (Caerdydd 1971)*

Meic Stephens (gol), *The New Companion to the Literature of Wales (Cardiff 1998)*

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Arthur Machen

## Gweithiau

Arthur Machen, 04642great god Pan

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 2473758

Wikidata: Q540166

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/